**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref RE/00147/20

Elin Jones AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Mawrth 2020

Annwyl Lywydd

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 ("Y Prif Reoliadau"). Mae'r Prif Reoliadau yn rhoi rhwymedigaethau ar wahanol bersonau at ddiben atal, rheoli neu amddiffyn rhag achosion o haint neu halogi, atal achosion o haint neu halogi rhag lledaenu a darparu ymateb iechyd y cyhoedd i achosion o'r fath. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd ar weithwyr iechyd proffesiynol i hysbysu staff iechyd y cyhoedd awdurdodau lleol os ydynt yn darganfod presenoldeb 'clefydau hysbysadwy' a 'chyfryngau achosol' yn eu cleifion neu unrhyw le arall.

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r Prif Reoliadau drwy fewnosod Clefyd Coronafeirws 2019 (COVID-19) yn y rhestr o 'Glefydau a Syndromau' yn Atodlen 1, a Syndrom Anadlol Acíwt Difrifol Coronafeirws 2 (SARS-CoV-2)' (feirws achosol Clefyd Coronafeirws) yn y rhestr o 'Gyfryngau Achosol' yn Atodlen 2 y mae bellach ddyletswydd i hysbysu'r awdurdod perthnasol amdanynt.

Cafodd Rheoliadau 2020 eu gwneud a'u gosod cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar sail iechyd y cyhoedd, i sicrhau bod gweithdrefnau priodol ar waith i fonitro ac atal y clefyd rhag lledaenu. O ganlyniad, maent wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym erbyn 5 Mawrth 2020, ac oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, credir bod modd cyfiawnhau lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn, a bod hynny'n angenrheidiol.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd